**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 11 Mawrth 2021 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:** Cynghorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe ) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| Emlyn Dole | Cyngor Sir Gâr |
| Ted Latham | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| David Simpson | Cyngor Sir Benfro |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Medwin Hughes | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Arnold | Rheolwr Cyllid (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Jon Haswell | Swyddog S151 (Cyngor Sir Benfro) |
| Greg Jones | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata - y Fargen Ddinesig (Cyngor Sir Gâr) |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Tracey Meredith | Swyddog Monitro'r Cyd-bwyllgor (Cyngor Abertawe) |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Phil Ryder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Rob Jones (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)
Ray Selby (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda), Steve Wilks (Prifysgol Abertawe) a/ac Emma Woollett (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)

---

## 37 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**38 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

**39 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Croesawodd y Cadeirydd y cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r trefniadau ariannu carlam newydd ar gyfer y Fargen Ddinesig. Bydd hyn yn caniatáu i arian gael ei dderbyn ar gyfer cynlluniau yn llawer gyflymach nag o'r blaen.

**40 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

**41 Adroddiad Monitro Ariannol - Swydd Rhagolwg Bargen Dinas Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Chris Moore (Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cyd-bwyllgor o'r sefyllfa alldro a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â'r Cyd-bwyllgor a'r Gronfa Buddsoddi mewn Portffolio.

**Penderfynwyd** y dylid derbyn a chymeradwyo cyfrifon blynyddol y Cyd-bwyllgor a'r sefyllfa alldro a ragwelir ar gyfer y Gronfa Buddsoddi mewn Portffolio.

**42 Adroddiad Amlygu Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Jonathan Burnes (Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyd-bwyllgor am gynnydd y gwahanol raglenni a phrosiectau sy'n rhan o Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Amlinellodd y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Isadeiledd digidol
- Prosiect Morol Doc Penfro
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel
- Campysau Gwyddor Bywyd a Lles
- Pentre Awel
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau
- Sgiliau a Doniau
- Yr Egin

## 43 Recriwtio mewn Perygl.

.Cyflwynodd Chris Moore (Swyddog Adran 151 Dinas-ranbarth Bae Abertawe) adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â'r risgiau o recriwtio staff ar gyfer rhaglenni rhanbarthol, cyn cymeradwyo achosion busnes.

Amlinellodd yr opsiynau a'r cynigion ar gyfer rhannu'r risgiau ymysg y pedwar awdurdod.

**Penderfynwyd**
1) adolygu a nodi cynnwys yr adroddiad.

2) bod argymhellion arfaethedig y swyddog o ran opsiwn 2 ac opsiwn B (yr adroddiad) mewn perthynas â'r risgiau sy'n gysylltiedig â recriwtio timau rheoli rhaglenni rhanbarthol cyn cymeradwyo achosion busnes yn cael eu cymeradwyo.

## 44 Adroddiad Blynyddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Phil Ryder (Rheolwr y Swyddfa Rheoli Portffolio) ddiweddariad llafar i'r Cyd-bwyllgor a oedd yn amlinellu bod naratif yr adroddiad wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau, Swyddogion a Phartneriaid er mwyn iddynt wneud sylwadau erbyn 18 Mawrth 2021.

Yn yr adroddiad mae adolygiad o'r deuddeg mis diwethaf o weithgareddau, gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y deuddeng mis nesaf, adroddiadau cynnydd o bob un o'r prosiectau, diweddariad i'r strwythur llywodraethu, crynodeb risg a gwybodaeth monitro a gwerthuso.

Yn dilyn sylwadau ac adborth, gellir cwblhau'r adroddiad a'i gynllunio'n broffesiynol cyn bwriadu ei ryddhau ym mis Mai.

## 45 Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Jonathan Burnes (Cyfarwyddwr Rhaglen Dinas-ranbarth Bae Abertawe) ac Ian Williams (Rheolwr Datblygu Portffolio) adroddiad a oedd yn darparu Achos Busnes Portffolio'r Fargen Ddinesig wedi'i ddiweddaru i'r Cyd-bwyllgor ei ystyried a'i gymeradwyo.

Mae'n ofynnol cyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Amlinellwyd a chyfeiriwyd at y meysydd canlynol a gynhwysir gyda'r ddogfen:
- Diben yr adroddiad a'r model 5 achos;
- Prif newidiadau;

- Hyfywedd economaidd;
- Crynodeb o'r Buddsoddiad a'r Effaith;
- Fforddadwyedd;
- Tebygolrwydd o gyflawni;
- Llinell amser a chynnydd y prosiect;
- Blaenoriaethau wrth symud ymlaen:

Nodwyd y dylid ystyried yr adroddiad ar y cyd ag eitem 12 yr agenda sy'n rhoi atodiadau masnachol sensitif ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor o ran fersiwn ddiweddaraf Achos Busnes Portffolio'r Fargen Ddinesig.

**Penderfynwyd** y dylid cymeradwyo fersiwn ddiweddaraf Achos Busnes Portffolio BDBA a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

## 46 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 47 Achos Busnes Portffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Cyflwynodd Ian Williams (Rheolwr Datblygu Portffolio) adroddiad "er gwybodaeth" a ystyriwyd ar y cyd ag eitem 10 ar yr agenda.

Roedd yr adroddiad yn rhoi atodiadau masnachol sensitif ychwanegol i'r Cyd-bwyllgor o ran fersiwn ddiweddaraf Achos Busnes Portffolio'r Fargen Ddinesig, y cytunwyd arni.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.05 am

**Cadeirydd**